Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Trallwng
Ffordd Salop
Y Trallwng
Powys
SY21 7FA

06/11/2024

Annwyl Lorna Tuffin

**Ymweliad interim:** Hydref 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Trallwng yn ddiweddar i ystyried sut roedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Mawrth 2022. Ceir crynodeb isod o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol yn cydweithio'n dda i weithio tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion. Maent yn sefydlu ystod addas o brosesau gwerthuso a gwella ac wedi gwneud cynnydd da yn gwella agweddau ar ddarpariaeth llythrennedd yn yr ysgol. Mae gan arweinwyr gynlluniau addas ar waith i sicrhau mwy o welliant yn erbyn yr argymhellion.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion**

- Ers ymgymryd â chyfrifoldeb arwain ar gyfer yr ysgol, mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi ailffocysu sylw'r ysgol ar fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.
- Mae ffocws yr ysgol ar wella medrau llafaredd disgyblion yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda mewn gwersi ac yn cyflwyno gwybodaeth am eu dysgu yn glir gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa.
- Mae arweinwyr wedi rhoi ymagwedd ysgol gyfan ar waith at addysgu ffoneg. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion mewn datblygu medrau darllen a sillafu cynnar. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn paratoi i adeiladu ar yr arfer hon i wella darpariaeth ymhellach ar gyfer disgyblion hŷn.

- Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn amrywiol o ran ei heffeithiolrwydd. Pan mae gan athrawon ffocws clir ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i ysgrifennu at ddibenion penodol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn sillafu ac yn atalnodi'n gywir ac yn trefnu eu gwaith yn dda. Fodd bynnag, pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae disgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol mynych yn eu gwaith.
- Mae addysgu yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau mathemategol yn raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn hyderus i gymhwyso'r wybodaeth hon yn annibynnol, er enghraifft mewn gweithgareddau datrys problemau, ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau mewn cyd-destunau dilys a bywyd go iawn.

**Cryfhau prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio'n fwy penodol ar effaith yr addysgu ar ddysgu**

- Mewn cyfnod amser cymharol fyr, mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi sefydlu prosesau priodol i werthuso effeithiolrwydd cyffredinol gwaith yr ysgol. Maent wedi gweithio'n ddiwyd i roi prosesau ar waith sy'n cynnwys pob un o'r staff a'r llywodraethwyr a hyrwyddo cydweithio ysgol gyfan.
- Mae uwch arweinwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau priodol i werthuso gwaith yr ysgol, ac maent yn datblygu dealltwriaeth gywir o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu o ran addysgu a dysgu.
- Mae uwch arweinwyr wedi defnyddio gwybodaeth o waith gwerthuso yn briodol i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, er enghraifft i wella addysgu ffoneg. Mae'r gwaith hwn yn fuddiol i gynnydd disgyblion.
- Ar ôl sefydlu diwylliant cydweithredol a phrosesau priodol, mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen datblygu eu gwaith gwerthuso ymhellach i ganolbwyntio'n graffach ar yr effaith a gaiff addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd disgyblion.
- Mewn lleiafrif o achosion, yn enwedig lle mae staff yn newydd i werthuso effeithiolrwydd gwaith yr ysgol, nid yw diben a ffocws y monitro bob amser yn glir. Nid yw staff bob amser yn gwerthuso'r gwahaniaeth a wna gwaith yr ysgol i gynnydd disgyblion cystal ag y gallent.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/provider/6663051

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol